CYNGOR SIR CEREDIGION – GWASANAETH YSGOLION

# AD-DREFNU YSGOLION
# DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## CYNNIG I DDIWYGIO CYFRWNG IAITH Y DYSGU SYLFAEN A DERBYN DISGYBLION 3 OED YN RHAN AMSER YN YSGOL GYNRADD GATHOLIG PADARN SANT

## DYDDIAD: MEDI 2023

# 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag adran 84 o'r Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 disgwylir i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg i Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun a luniwyd yn cydymffurfio gyda rheoliadau Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru 2019. Mabwysiadwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan Gabinet Ceredigion ar 20 o Chwefror 2022 a'i gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru ar yr 20 o Orffennaf 2022. Cynlluniwyd yn strategol ar gyfer y meysydd a ganlyn er mwyn datblygu a chryfhau'r Gymraeg:

**Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

**Deilliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant** 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr Ysgol

**Deilliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

**Deilliant 7:** Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Yn dilyn ei gymeradwyo, o dan adran 85(7) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu eu CSGA yn unol â gweledigaeth Ceredigion.

# 2. CEFNDIR

Ar yr ail i Fai, 2023 cytunodd Cabinet ar yr argymhellion a nodir:

i) i fabwysiadu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a'i weithredu o ddechrau tymor yr Haf 2023, a'i adolygu'n flynyddol

ii) i'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy gyfrwng cyfarfodydd Fforwm Iaith y CSGA a phwyllgor Dyfodol Dwyieithog.

iii) i'r adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Iaith, pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet

iv) yn unol â'r Côd Trefniadaeth (2018) Ysgolion bod yr Awdurdod Lleol yn cychwyn ar y broses o newid cyfrwng iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion Comins Coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Chei Newydd.

iv) yn ogystal, bydd ymgynghoriad parthed newid oed derbyn mewn tair ysgol sef Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd yn cyd-redeg. Bydd y cyfnodau ymgynghori hyn yn cychwyn ar 15fed Medi 2023.

O ganlyniad i'r penderfyniad uchod cychwynir ar y broses ymgynghori ar Fedi 15fed 2023.

# 3. Y rhesymau dros lunio'r cynnig

Gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru fel dogfen statudol ers Medi 2022, mae'r pedwar diben mandadol yn nodi bod angen datblygu *"dysgwyr uchelgeisiol, medrus sydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes".* O fewn y cwricwlwm hynny mae'r Gymraeg yn fandadol o 3 oed tan 16. Er mwyn adlewyrchu canllawiau Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth Gymraeg (Medi 2022) mae pob ysgol yng Ngheredigion wedi cytuno ar gategori Iaith benodol. Mae Ysgol Padarn Sant a'i chorff Llywodraethol wedi pennu categori Trosiannol 2 ac wedi llunio Cynllun Gweithredu yn dangos y llwybr ieithyddol ar draws yr ysgol. Mae Maes Dysgu Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o fewn Cwricwlwm i Gymru yn gofyn i ysgolion ac ymarferwyr ddatblygu'r Gymraeg gan roddi canllawiau cyson i bob sefydliad.

Byddai newid Iaith Dysgu Sylfaen yn yr ysgol yn sail gadarn i ddatblygiad sgiliau ieithyddol disgyblion yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru. Byddai'n cysoni darpariaeth ac yn cynnig ecwiti ieithyddol i holl ddisgyblion Ceredigion.

Byddai cynnig mynediad i addysg yn 3 oed yn ehangu cyfleoedd caffael Iaith disgyblion ac yn cyflwyno ecwiti darpariaeth mwy cyson o fewn yr ysgolion hynny sydd wedi eu pennu yn y categori Trosiannol 2. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr (2017) yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae'r tabl isod yn dangos yr amserlen weithredu pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo:-

| **Dyddiad Cychwyn** | **Blwyddyn Ysgol** |
|---|---|
| Medi 2024 | Derbyn disgyblion Meithrin am y tro cyntaf |
| Medi 2025 | Derbyn |
| Medi 2026 | Blwyddyn 1 |
| Medi 2027 | Blwyddyn 2 |

Erbyn Medi 2028, byddai'r disgyblion Blwyddyn 3 yr ysgol â sail gadarn yn arbennig ar lafar a byddant yn medru adeiladu ar y sgiliau hynny tra hefyd yn datblygu eu sgiliau a'u haddysg trwy gyfrwng y Saesneg.

**Manylion Cefndir yr Ysgol**

| **Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant** | |
|---|---|
| Rhif derbyn arfaethedig | 19 |
| Trefniadau derbyn | Manylion yn adran 12 Y broses Dderbyn |
| CYBLD Ionawr 2023 | 138 |
| Canran sy'n siarad Cymraeg gartref – Ionawr 2023 | 8% |
| Ystod oedran | 4-11 |
| Capasiti lleoedd disgyblion | 134 |
| Nifer y Lleoedd Meithrin | - |
| Lleoliad | Llanbadarn Fawr, Aberystwyth |
| Categori | Gynradd Gatholig |
| Categori Iaith | Trosiannol 2 |

# 4. Y BROSES YMGYNGHORI

Bydd yr ymgynghoriad ar yr argymhelliad hwn yn dilyn y canllawiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
Mae'r ddogfen hon wedi'i hanfon i'r partïon canlynol sydd â diddordeb:

| | |
|---|---|
| Staff (Addysgu ac Ategol) Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant a phenaethiaid cynradd ac uwchradd Ceredigion | Llywodraethwyr a Rhieni/ Gwarcheidwaid Ysgol Gynradd Gatholigb Padarn Sant |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ceredigion | Llywodraeth Cymru |
| Cynghorwyr Sir Lleol | Comisiynydd y Gymraeg |
| Aelod Cynulliad/Aelod Seneddol etholaethol a rhanbarthol | Cyfarwyddwr Addysg awdurdod lleol cyfagos |
| Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru (PACC) | Yr Eglwys yng Nghymru - Esgobaeth Tyddewi<br>Awdurdod Esgobaeth Gatholig Rufeinig |
| Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol | Estyn |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | Cynghorau Cymuned Lleol |
| Undebau Llafur Athrawon a Staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill yn yr ysgolion a effeithir gan y cynnig | Darparwyr Addysg 3 oed a darparwyr gofal plant preifet |

## Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori, pryd y gellir mynegi barn mewn perthynas â'r cynnig presennol, yn digwydd rhwng 15 Medi a 30 Hydref 2023. Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Mae hyn oherwydd y gall y cynnig newid mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| Wythnos yn cychwyn Mehefin 26 | Cyflwyno'r ddogfen Ymgynghori i gadeirydd y corff Llywodraethol a chyfarwyddwr addysg Esgobaeth Menevia |
| 15 Medi – 30 Hydref 2023 | Cyhoeddi Dogfennau Ymgynghori |
| 9 Ionawr 2024 | Cabinet |
| 22 Ionawr – 19 Chwefror 2024 | Cyhoeddi notis stadudol |
| 4 Mehefin 2024 | Cabinet |

Gellir mynegi barn neu ofyn cwestiynau pellach, naill ai trwy ysgrifennu llythyr neu trwy lenwi'r ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon erbyn **Hydref 30 2023.** Dyma'r cyfeiriad:

Ymgynghoriad CSGA
Cyngor Sir Ceredigion,
Canolfan Rheidol,
Rhodfa Padarn,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3UE

Neu e-bostiwch: csgapadarnsant@ceredigion.llyw.cymru neu wesppadarnsant@ceredigion.gov.uk

## Ymgynghori â'r disgyblion

Bydd cyfle i dderbyn Llais y disgybl fel rhan o'r broses ymgynghori yn Ysgol Padarn Sant. Darperir fersiwn disgybl gyfeillgar atodol o'r ddogfen ymgynghori ffurfiol hon, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu dogfen wybodaeth i ddisgyblion o'r enw 'Cynigion Trefniadaeth Ysgolion'.

Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a lefel eu dealltwriaeth, gan sicrhau eu bod yn gallu mynegi barn ar sail gwybodaeth.

# 5. Disgrifiad a Buddiannau

**Y Sefyllfa Bresennol**

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Cadw hunaniaeth a phresenoldeb yr ysgolion yn y gymuned leol | Diffyg ecwiti ieithyddol sy'n arwain at ddiffyg cysondeb ar draws y Sir |
| Dim amharu ar ddisgyblion na staff | Nifer o staff presennol yn medru addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn cael cyfle i fireinio eu sgiliau |
| | Nid yw'r sefyllfa gyfredol yn diwallu anghenion a dyheadau Cwricwlwm i Gymru i gynhyrchu disgyblion hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan gyfrannu at ddinasyddion dwyieithog |
| | Nid oes darpariaeth meithrin yn yr ysgol |
| | Nid yw'n cyfrannu'n gadarnhaol at weledigaeth Miliwn o Siaradwyr Llywodraeth Cymru |

**Manteision ac anfanteision diwygio'r Gymraeg yn y cyfnod Dysgu Sylfaen ac i newid oed derbyn disgyblion o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Bydd y disgyblion ar eu hennill trwy fynychu ysgol sy'n gallu cyflwyno'r cwricwlwm mewn cyd-destun cymdeithasol ac ieithyddol ehangach<br>• Bydd deilliannau a safonau disgyblion yn uwch ac yn diwallu anghenion a gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu " dysgwyr uchelgeisiol , medrus sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau drwy'r Gymraeg a'r Saesneg"<br>• Bydd disgyblion tair oed yn cael mynediad i addysg ffurfiol mewn ysgol<br>• Bydd y disgyblion yn caffael yr Iaith Gymraeg yn ystod eu haddysg | • Goblygiadau hyfforddi rhai aelodau staff penodol<br>• Posibiliad nad yw'r cynllun Sabothol yn ateb y galw<br>• Capasiti darparu hyfforddiant methodoleg ac addysgeg priodol<br>• Cost yr awdurdod addysg wrth ddarparu athro 0.5 ar gyfer y ddarpariaeth meithrin. |

| | |
|---|---|
| gynnar gan sicrhau dwyieithrwydd o'r cychwyn cyntaf<br>• Ecwiti ieithyddol ar draws y Sir o ran ysgolion a disgyblion hyd at 7 oed<br>• Cynnig sail gadarn i ehangu sgiliau ar draws eu cyfnod D ysgu Sylfaen<br>• Ennill capasiti staffio sy'n gyfateb â 0.5<br>• Ymgysylltiad gwirioneddol i'r cymunedau dwyieithog y mae'r disgyblion yn rhan ohoni<br>• Datblygiad sgiliau ieithyddol personol Staff yn unol â Safonau Proffesiynol Athrawon wrth eu gwaithCynorthwyo<br>• ysgolion i gyrraedd nod categori ysgol T2 | |

**Y risgiau sy'n gysylltiedig â diwygio cyfrwng Dysgu Sylfaen  a'r mesurau sydd eu hangen i'w rheoli**

- Bydd angen ymgysylltiad agos â disgyblion, rhieni a'r gymuned yn hollbwysig i leihau a rheoli'r risg
- Bydd angen cymorth ar gyfer disgyblion agored i niwed neu ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- Bydd angen cefnogi'r staff a'r disgyblion drwy ddarparu hyfforddiant addas ac adnoddau pwrpasol

**Effaith ar y Gymuned**

Rhagwelir na fyddai unrhyw effaith ar y gymuned gan y bydd y cynnig yn cryfhau defnydd o'r Gymraeg.

Mae Asesiad Effaith ar y Gymuned ar gael mewn dogfen ar wahân

**Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol**

Ni fydd unrhyw newid i drefniadau teithio presennol.

# 6. Manylion yr Ysgolion sy'n cael eu heffeithio

Byddai'r ysgol ganlynol yn cael eu heffeithio

- Ysgol Gymraeg Aberystwyth

| **Ysgol Gymraeg Aberystwyth** | |
|---|---|
| Rhif derbyn arfaethedig | 52 |
| Trefniadau derbyn | **Manylion yn Adran 12** |
| CYBLD Ionawr 2023 ( heb Meithrin) | 355 |
| Canran sy'n siarad Cymraeg gartref (Ionawr 2023) | 64% |
| Ystod oedran | 3-11 |
| Capasiti lleoedd disgyblion | 370 |
| Nifer y Lleoedd Meithrin | 52 |
| Lleoliad | Ysgol Gymraeg , Aberystwyth |
| Categori | Cymunedol |
| Categori Iaith | Categori 3 |
| Trefnidadau Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol | **Manylion yn Adran 13** |

# 7. ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Roedd canfyddiadau Estyn yn ei adroddiad thematig ar Gaffael Iaith yn nodi y dull trochi a drilio fel y ffordd fwyaf effeithiol o gynhyrchu siaradwyr Cymraeg

Gweler adroddiad thematig ESTYN ar gaffael Iaith yma

See Estyn thematic report here

**Estyn – safonau Cymraeg - Padarn Sant – 2023**

Nodwyd arolwg Estyn 2023, bod 'medrau Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn hyderus, gydag atalnodi da. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau ac ymadroddion Cymraeg cyfarwydd, ac yn datblygu hyder wrth ddefnyddio ystod gynyddol gymhleth o eirfa. Mae llawer ohonynt yn dangos ynganiad da wrth siarad; er enghraifft, mae'r disgyblion iau yn penderfynu beth hoffent ei gael i ginio, yn nodi pa ddiwrnod yw hi a sut beth yw'r tywydd heddiw. Maent yn ymateb yn

hyderus i gyfarwyddiadau a chwestiynau Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau gemau iaith lle maent yn defnyddio amser y dyfodol i ofyn cwestiynau i'w partner. Maent yn ateb yn hyderus, gan gyfeirio at i ble y byddant yn mynd a beth fyddant yn ei wneud. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod yr holl weithgareddau. Mae menter 'trochi' yn llwyddiannus, ac mae disgyblion yn frwdfrydig tuag at yr iaith. O ganlyniad, mae dealltwriaeth a hyder disgyblion wrth siarad Cymraeg yn datblygu'n dda. Ymatebodd arweinwyr i ddeilliannau gweithgareddau monitro a amlygodd fod medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn faes i'w ddatblygu. Dechreuon nhw gynlluniau effeithiol, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion bellach yn siarad Cymraeg â hyder cynyddol. Mae staff wedi elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu eu medrau Cymraeg, gan gynnwys cynllun sabothol Cymraeg yr awdurdod lleol'.

**Effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y Dysgu Sylfaen.**

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn  gan y bydd yr ysgol yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol. Bydd y Dysgu Sylfaen yn gweithredu system drochi'r Gymraeg a chyflwynir darllen Saesneg tuag at ddiwedd y cyfnod Sylfaen os yn briodol.

**Gallu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Dysgu Sylfaen**

| Enw'r Ysgol | Gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant | Cyflwynir y cwricwlwm llawn mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol yn Ysgol Padarn Sant. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn |

# 8. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (CSGA)

**Y graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau ag amlinellir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cymeradwy**

Mae'r ysgol a'r bwrdd Llywodraethol wedi gosod yr ysgol yng nghategori Trosiannol 2 yn unol â diffiniad dogfen "Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" 2021. Mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau ag amlinellir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol.

**Y modd byddai'r cynnig yn ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg**

Byddai'r disgyblion yn caffael y Gymraeg o oedran cynnar gan sicrhau dilyniant a chynnydd yn eu sgiliau ieithyddol.
Byddai cyd-destun cymdeithasol ehangach yn cynnig cyfleoedd ieithyddol ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion.

# 9. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Er y bydd y newid yn effeithio ar yr holl ddisgyblion, mae'r Awdurdod yn cydnabod serch hynny y gall fod yn fwy o her i rai disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cymerir pob cam ymarferol i sicrhau cyn lleied o amharu â phosib, ac i gynorthwyo disgyblion gydag unrhyw newid.

Bydd disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd yn parhau i gael y lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol. Bydd trefniadau ychwanegol sydd yn eu lle ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion, megis mynediad i gymorth un i un, yn cael eu hadolygu a'u darparu yn unol â'r angen

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Os bydd gan rieni disgyblion sydd ar y gofrestr ADY unrhyw gwestiynau ynghylch y cymorth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol gyda'r Swyddogion Addysg ADY.

# 10. GWYBODAETH CYLLID

Bydd yr awdurdod yn darparu cyllid 0.5 athro ar gyfer y meithrin yn yr ysgol.

# 11. YSTYRIAETHAU STAFFIO

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, gallai'r goblygiadau o ran staffio arwain at ryddhau staff ar gyfer cynlluniau Sabothol ac hyfforddiant penodol. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhelir trafodaethau'n benodol gyda staff a chynrychiolwyr Undebau.

# 12. Y BROSES DERBYN

Proses i dderbyn disgyblion yn Ysgol Padarn Sant

- Y Bwrdd Llywodraethol sydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglyn â cheisiadau derbyn disgyblion i'r ysgol.
- Ni fydd y broses dderbyn gyfredol yn cael ei heffeithio.

- Dylai'r rhieni fynegi dewis yn ysgrifenedig a chwblhau ffurflen Ysgol Gatholig Padarn Sant yn ogystal â ffurflen dderbyn Cyngor Sir Ceredigion – gweler isod. Bydd angen cwblhau'r ddwy ffurflen.

Yr Ysgol Gymraeg Aberystwyth: Dylid gwneud ceisiadau i'r Awdurdod lleol ac nid i'r ysgol gan mai'r Awdurdod lleol yw'r unig gorff sy'n gallu cynnig lle mewn ysgol. Dyma'r manylion ar gyfer derbyniadau'r awdurdod:-

Tîm Derbyn,
Gwasanaeth Ysgolion
Canolfan Rheidiol
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY233UE
Dylid gwneud ceisiadau gan ddefnyddio'r ffurflen dderbyn ddigidol ar wefan Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk)

# 13. CLUDIANT

Ni effeithir ar drefniadau presennol yr ysgol

# 14. LLWYBRAU CERDDED

Ni effeithir ar sefyllfa bresennol yr ysgol.

# 15. ASESIADAU O'R EFFAITH

Asesiadau Effaith ar y Gymuned, y Gymraeg a Chydraddoldeb

Fel y'i gosodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol cyhoeddi asesiadau effaith mewn perthynas â'r uchod. Mae'r rhain wedi'u cynhyrchu fel dogfen ar wahân yn sgil y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol ac mae ar gael ar ein gwefan.

# 16. MANYLION YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

Er mwyn gweithredu'r cynnig presennol, mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r gweithdrefnau fel y'u cadarnheir yn y cod statudol:

- Cyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad, yn cadarnhau manylion y cynnig – bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn ogystal â chael ei anfon at yr holl rhanddeiliaid.

- Bydd cyfnod o 42 diwrnod i ymateb i'r cynnig, ac ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, cyhoeddir adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd. Cyhoeddir hwn ar wefan y Cyngor.

- Os caiff y cynnig ei dderbyn, cyhoeddir hysbysiad statudol gyda manylion megis y dyddiad gweithredu arfaethedig, sut i gael copi o adroddiad yr ymgynghoriad, a sut i wrthwynebu:

    - Ar wefan y Cyngor:
    - Wedi'i osod ar, neu gerllaw prif fynedfa'r ysgol; a

    - Thrwy ddarparu'r ysgolion a effeithir gyda chopïau i'w dosbarthu i rieni.

- Cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, yn caniatáu i unrhyw un sydd am wrthwynebu'r cynnig presennol i wneud hynny.
- Y Cyngor yn penderfynu ar y cynnig; pan y gellir, yn amodol ar y broses uchod, weithredu penderfyniad i roi'r cynnig presennol ar waith. Dylid gweithredu'r cynnig yn unol â'r dyddiad a roir yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad priodol arall.

Isod ceir manylion y llinell amser a ragwelir ar gyfer y broses hon:

| DYDDIAD | GWEITHGAREDD |
|---|---|
| **15 MEDI 2023** | **YMGYNGHORIAD STATUDOL YN CYCHWYN:** Cynhelir cyfnod o ymgynghori ffurfiol. Yn ystod y cyfnod yma gall unrhyw un â diddordeb fynegi barn ynglŷn â'r cynnig. |
| **30 HYDREF 2023** | **YMGYNGHORIAD STATUDOL YN GORFFEN** |
| **9 IONAWR 2023** | **ADRODDIAD FFURFIOL YR YMGYNGHORIAD:** Ar ddiwedd cyfnod ffurfiol yr ymgynghoriad , bydd yr ymatebion yn cael eu casglu a'u cyflwyno i'r Cabinet ar ffurf Adroddiad Ymgynghorol ffurfiol gan gynnwys argymhellion gan Swyddogion. Cyhoeddir hyn ar wefan Ceredigion. |
| **22 IONAWR 22 2024** | **CYFNOD Y NOTIS STATUDOL YN CYCHWYN:** Os ydy'r cynnig yn cael ei dderbyn gan y Cabinet, bydd notis statudol yn cael ei gyflwyno. Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, dylai gwrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig a'u danfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig. |
| **19 CHWEFROR 2024** | **CYFNOD Y NOTIS STATUDOL YN CAU** |
| **4 MEHEFIN 2024** | **CABINET:** Yn adrodd ar y nifer o wrthwynebiadau a dderbyniwyd a phenderfyniad i weithredu ai peidio. |

# 17. FFURFLEN YMATEB – YSGOL GYNRADD GATHOLIG PADARN SANT

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i randdeiliaid roi sylwadau ar y prif gynnig h.y. diwygio'r Gymraeg yn y Dysgu Sylfaen ynghyd â chaniatau derbyn oedran meithrin rhan amser i'r ysgol.

| SYLWADAU |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | |
| **Printiwch eich Enw:** | |
| **E-bost:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Dyddiad:** | |
| Nodwch os hoffech chi gael gwybod pan fydd yr adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi: ☐ | |

Sylwer, oni bai eich bod yn nodi i'r gwrthwyneb, bydd eich sylwadau ar gael i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.

Dychweler erbyn **Hydref 30 2023** fan bellaf at:

Ymgynghoriad CSGA, Gwasanaeth Ysgolion, 2il Lawr, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE

Neu e-bostiwch: cysgapadarnsant@ceredigion.llyw.cymru or wesppadarnsant@ceredigion.gov.uk